traveline.cymru

# Pecyn o Weithgareddau Difyr i'r Teulu



traveline.cymru

# Cynnwys


1. CHWILAIR........................................
2. LLIWIO'R TRÊN....................................
3. RYSÁIT 'ROCKY ROAD'..............................
4. HELFA SBORION....................................
5. LLIWIO'R BWS.....................................
6. GEIRIAU CUDD.....................................
7. ADNODDAU I RIENI A GOFALWYR.....................




1.

traveline.cymru

# Chwilair

Allwch chi ddod o hyd i'r geiriau i gyd? Rhowch gynnig arni!

| | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| A | W | NG | C | E | R | D | D | E | D | S | A | C | G | M |
| D | J | E | T | U | A | S | P | G | FF | J | TH | D | O | E |
| F | PH | L | NG | L | FF | E | LL | DD | B | C | LL | W | R | I |
| J | B | FF | A | D | L | E | B | J | T | U | CH | FF | S | N |
| CH | E | N | G | TH | A | PH | T | M | R | M | O | P | A | U |
| RH | I | I | T | F | FF | F | RH | S | Ê | T | PH | Y | F | H |
| S | C | P | R | B | B | NG | O | PH | N | Y | F | U | Y | C |
| A | W | U | A | N | DD | I | H | N | TH | NG | S | J | J | U |
| R | G | P | S | M | Y | FF | M | LL | DD | N | TH | O | DD | Y |
| I | D | T | RH | B | W | S | W | A | W | R | Y | R | E | N |
| C | H | O | O | O | P | G | H | R | C | TH | G | P | LL | F |
| Y | N | C | H | RH | B | I | S | NG | B | M | T | NG | O | DD |
| R | S | Y | T | C | D | LL | A | L | LL | TH | W | Y | A | U |
| I | Y | N | A | E | H | F | RH | E | G | S | J | O | F | L |
| L | DD | G | W | FF | NG | DD | A | M | S | E | R | L | E | N |

BWS
TRÊN
BEIC
CERDDED
AMSERLEN
GORSAF
TOCYN
AWYREN



2.

traveline .cymru

20 YEARS 20 MLYNEDD

# Lliwio!




Ceisiwch ddefnyddio cymaint ag sy'n bosibl o binnau a phensiliau o wahanol liwiau i liwio'r trên.



traveline.cymru

# Rysáit 'rocky road'

Rhowch gynnig ar baratoi eich cacen 'rocky road' flasus eich hun gyda help oedolyn!

**Amser: 20 munud (+ 2 awr i oeri yn yr oergell)**

**Lefel anhawster:**

**Digon i: 12 o foliau gwag!**

## Cynhwysion:

**200g o'ch hoff fisgedi**
**135g o fenyn neu fargarîn**
**200g o siocled (defnyddiwch beth bynnag sydd gennych yn barod yn y tŷ!)**
**2-3 llwy fwrdd o driog melyn**
**100g o falws melys bach**
**Unrhyw ddanteithion eraill rydych am eu cynnwys yn eich cacen 'rocky road'! (er enghraifft, popgorn, ffrwythau sych, cnau)**

## Offer:

**Tun pobi**
**Papur pobi**
**Siswrn**
**Bag rhewgell**
**Rholbren**
**Sosban**
**Powlen gymysgu**
**Llwy bren**
**Oergell**



# Dull:

1. Gofynnwch i oedolyn eich helpu i dorri darn o bapur pobi i'w roi yn eich tun pobi. Bydd hynny'n sicrhau na fydd eich cacen 'rocky road' yn glynu wrth waelod y tun tra bydd yn oeri yn yr oergell.

2. Rhowch y bisgedi i gyd mewn bag rhewgell a defnyddiwch y rholbren i'w malu yn ddarnau mân (o faint darn 50c yn fras).

3. Bydd angen help oedolyn arnoch gyda'r cam nesaf! Yn ofalus iawn, toddwch y menyn neu'r margarîn, y siocled a'r triog melyn mewn sosban dros wres isel nes bod y cymysgedd yn llyfn, heb lympiau. Gadewch i'r cymysgedd oeri yn y sosban.

4. Pan fydd wedi oeri, ychwanegwch eich darnau bach o fisgedi, y malws melys bach ac unrhyw ddanteithion melys eraill o'ch dewis at y cymysgedd siocled a chymysgwch y cyfan yn dda.

5. Rhowch y cymysgedd yn eich tun pobi a thaenwch ef ar hyd y papur pobi.

6. Rhowch ef yn yr oergell a gadewch iddo oeri am o leiaf 2 awr.

7. Yn ofalus, torrwch y gacen 'rocky road' yn 12 darn (gyda help oedolyn) a mwynhewch ei bwyta!

*Ffynhonnell y rysáit: BBC Good Food*
*https://www.bbcgoodfood.com/recipes/easy-rocky-road*

4.

traveline.cymru

# Helfa sborion Traveline

Allwch chi ddod o hyd i 5 eitem yn eich tŷ, sy'n dechrau â'r llythrennau hyn?

**T** ______________________________

**R** ______________________________

**A** ______________________________

**V** ______________________________

**E** ______________________________

**L** ______________________________

**I** ______________________________

**N** ______________________________

**E** ______________________________



traveline .cymru

# Lliwio!

Allwch chi ein helpu i wneud ein bws yn llachar ac yn lliwgar?





traveline.cymru

# Geiriau cudd

Faint o eiriau allwch chi eu creu o'r llythrennau sydd yn 'Traveline Cymru'?

| |
|---|
| 1. |
| 2. |
| 3. |
| 4. |
| 5. |
| 6. |
| 7. |
| 8. |
| 9. |
| 10. |



traveline .cymru

# Adnoddau i rieni a gofalwyr

Rydym wedi llunio rhestr o adnoddau a chynghorion i'ch helpu i gadw'r plant yn brysur yn ystod yr wythnosau nesaf. Cymerwch olwg arni...

## Darllen:

**The World of David Walliams 'Elevenses'**- Llyfr llafar am ddim a gaiff ei lanlwytho am 11am bob dydd
Cliciwch yma

**Dref Wen**- Llyfrau llafar Cymraeg am ddim
Cliciwch yma

**Audible**- Cyfle i gael gafael ar gannoedd o lyfrau llafar am ddim am 30 diwrnod
Cliciwch yma

**Cbeebies Bedtime Stories** - Dros 30 o raglenni ar gael ar BBC iPlayer
Cliciwch yma

**Borrow Box**- Llyfrau am ddim ar-lein
Cliciwch yma

**Oxford Owl** - Llyfrau am ddim ar-lein ar gyfer plant 3-11 oed
Cliciwch yma

**World eBook** - Llyfrau am ddim ar-lein
Cliciwch yma



traveline .cymru

# Adnoddau i rieni a gofalwyr

Rydym wedi llunio rhestr o adnoddau a chynghorion i'ch helpu i gadw'r plant yn brysur yn ystod yr wythnosau nesaf. Cymerwch olwg arni...

## 'Diwrnod allan' heb adael eich cartref:

**Amgueddfa Cymru:** Mae llawer o arddangosfeydd, gweithgareddau ac adnoddau ar gael i blant eu harchwilio ar wefan Amgueddfa Cymru

Cliciwch yma

**Taith rithwir i'r Pyramidiau:** Yw eich plant wedi bod yn awyddus i weld pyramidiau'r Hen Aifft yn agos? Wel, dyma'u cyfle nhw! Mae digon o deithiau rhithwir ar gael ar gyfer plant o bob oed

Cliciwch yma

**Gweld bywyd gwyllt Kenya:** Dyma gyfle i wylio lluniau camera byw o Ganolfan Ymchwil Mpala yng nghanolbarth Kenya – lluniau o anifeiliaid trawiadol yn eu cynefin naturiol

Cliciwch yma

**Taith rithwir i Wal Fawr Tsieina:** Mae'r strwythur hwn, sy'n ymestyn am dros 3,000 o filltiroedd ac sy'n 2,000 o flynyddoedd oed, yn atyniad y dylai pawb ei weld yn ystod yr wythnosau nesaf

Cliciwch yma



traveline.cymru

# Adnoddau i rieni a gofalwyr

Rydym wedi llunio rhestr o adnoddau a chynghorion i'ch helpu i gadw'r plant yn brysur yn ystod yr wythnosau nesaf. Cymerwch olwg arni...

## Gweithgareddau eraill i gadw'r plant yn brysur:

**Addysg Gorfforol gyda 'The Bodycoach', Jo Wicks:** Sesiynau Addysg Gorfforol am ddim bob bore am 9am o ddydd Llun i ddydd Gwener
Cliciwch yma

**BBC Supermovers:** Fideos rhyngweithiol i helpu plant i ddysgu Mathemateg CA1, llythrennedd, Addysg Bersonol, Gymdeithasol ac Iechyd ac Addysg Gorfforol
Cliciwch yma

Crëwch enfys i'w harddangos yn eich ffenestr ffrynt er mwyn dangos eich cefnogaeth i weithwyr allweddol

Crëwch helfa drysor i'w gwneud yn eich tŷ neu'ch gardd

**Ewch ati i bobi!** Rhowch gynnig ar ein rysáit 'rocky road' neu unrhyw ryseitiau eraill sy'n addas i blant ar wefan BBC Good Food
Cliciwch yma

